

## Hyfforddiant cydraddoldeb penodol i elfen

### Enabledd

#### Hyfforddiant Cynnwys Enabledd y DU a gynhelir gan Chwaraeon Enabledd Cymru i Gyrrff Rheoli Cenedlaethol

Mae hwn ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn swydd heb fod yn cyflwyno i gorff rheoli chwaraeon, gan gynnwys Swyddogion Addysgu Hyfforddwyr, Aelodau Bwrdd, Swyddogion Aelodaeth, swyddogion y gweithlu hyfforddi, gweinyddwyr, trefnwyr digwyddiadau ac ati. Mae'n weithdy tair awr (theori yn unig) ac mae'r cyfranogwyr yn cael: tystysgrif presenoldeb, llyfryn taflenni gwaith y cyfranogwr, a chof bach gydag adnodd i gyfranogwyr mewn fformat PDF. Mae hwn yn llawn gwybodaeth bellach yn gysylltiedig â chynnwys y gweithdy.

#### Hyfforddiant Cynnwys Enabledd y DU a gynhelir gan Chwaraeon Enabledd Cymru i staff datblygu chwaraeon

Gweithdy chwe awr (tair theori a thair ymarferol) ac mae'r rhai sy'n mynychu'n cael tystysgrif presenoldeb, llyfryn taflenni gwaith y cyfranogwr, 20 cerdyn gweithgarwch, bag llinyn a chof bach gydag adnodd i gyfranogwyr mewn fformat PDF. Mae hwn yn llawn gwybodaeth bellach yn gysylltiedig â chynnwys y gweithdy.

#### Sut Mae Hyfforddi Pobl Anabl Mewn Chwaraeon a gynhelir gan SCUK i hyfforddwyr

Mae'r gweithdy lefel gyflwyniadol hwn gan Sports Coach UK yn mynd i'r afael â'r cwestiynau cyffredin am sut mae gweithio gydag athletwyr anabl. Mae'r cwrs wedi'i sefydlu'n dda ac fe'i ystyrir fel cyflwyniad priodol i hyfforddwyr, myfyrwyr a gwirfoddolwyr (16+) sy'n dymuno dysgu'r sylfeini am chwaraeon anabled. Y gost yw £25.00 am weithdy tair awr.

#### Hyfforddiant cynhwysol a gynhelir gan SCUK – Anabled i hyfforddwyr

Dyma weithdy tair awr sy'n ddilyniant i weithdy HCDPS Sports Coach UK. Anogir y cyfranogwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u harbenigedd hyfforddi ymhellach. Bydd y cysyniad o hyfforddi cynhwysol yn cael ei astudio'n fanwl a bydd hyfforddwyr (16+) yn ystyried priodolrwydd y gwahanol sefyllfaoedd dysgu. Gwahoddir y cyfranogwyr i enwi nifer o faterion a gweithgareddau i gynnwys, herio a datblygu perfformwyr anabl mewn amgylcheddau hyfforddi. Byddant hefyd yn datgan ffyrdd priodol o sicrhau cynnydd y perfformwyr anabl ar eu llwybr fel chwaraewyr. Y gost yw £25.

#### Tegwch yn Eich Hyfforddi a gynhelir gan SCUK i hyfforddwyr

Gweithdy tair awr yn ceisio sicrhau bod pawb yn cael cymryd rhan mewn chwaraeon, dim ots am eu rhyw, oedran, hil, ffydd, gallu neu dueddfryd rhywiol. Bydd hyfforddwyr yn cael eu paratoi i adnabod a delio ag unrhyw rwystrau a wynebir gan gyfranogwyr, ac i helpu i gynyddu cyfranogiad ac i gadw cyfranogwyr mewn clybiau ar bob lefel. Y gost yw £30.

#### Hyfforddiant Cynnwys Enabledd y DU a gynhelir gan Chwaraeon Enabledd Cymru i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr

Gweithdy chwe awr (tair theori a thair ymarferol) ac mae'r rhai sy'n mynychu'n cael tystysgrif presenoldeb, llyfryn taflenni gwaith y cyfranogwr, 20 cerdyn gweithgarwch, bag llinyn a chof bach gydag adnodd i gyfranogwyr mewn fformat PDF. Mae hwn yn llawn gwybodaeth bellach yn gysylltiedig â chynnwys y gweithdy.

#### Hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabled i staff rheng flaen

Ceir nifer o gwmnïau sy'n cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabled i staff rheng flaen ac efallai y gall ChAC ddarparu hyn e.e. Cymhwyster Galwedigaethol Cysylltiedig wedi'i achredu, fel Dyfarniad EDI Lefel 1 mewn Ymwybyddiaeth o Anabled.

<http://www.disabilitysportwales.com/courses/>

### Merched a genethod

Chwaraeteg: <http://chwaraeteg.com/>

StreetGames: [www.streetgames.org](http://www.streetgames.org)

Yn cynnig hyfforddiant i Gyrrff Rheoli Cenedlaethol i gynnwys merched a genethod.

**Lleiafrifoedd ethnig (yn cynnwys crefydd a ffydd)**

**StreetGames yn cyflwyno gweithdai Cydraddoldeb Hiliol (yn cynnwys crefydd a ffydd)**

Dyma gyfres o weithdai sy'n helpu staff a gwirfoddolwyr y Cyrff Rheoli Cenedlaethol ac mae'n cael ei addasu yn unol â'u hanghenion e.e. cynllunio strategol neu'r rhai sydd â swyddogaethau ymgysylltu uniongyrchol, fel swyddogion datblygu neu gyfranogiad, lle mae pwyslais ar adnoddau a chynghor ymarferol.

Os yw'r hyfforddiant ar gyfer staff strategol ac aelodau bwrdd, bydd yn costio £400 am hyd at 8 o bobl a £600 am 8-16 o bobl. Os cyflwynir yr hyfforddiant i'r gweithlu ar y tir, e.e. Swyddogion Datblygu sy'n cynllunio prosiectau newydd ar gyfer cymunedau o leiafrifoedd ethnig, gall cynllun StreetGames ei gyllido fel rhan o'i academi hyfforddi. Byddai'n rhaid i'r Corff Rheoli ddarparu ystafell a lluniaeth.

**Tueddfryd rhywiol**

**Stonewall:** <http://www.stonewall.org.uk/>

**Ailbennu rhywedd**

Mae Delia Johnston o Transsexuals in Sport yn gallu darparu hyfforddiant penodol ar gynnwys pobl drawsrywiol mewn chwaraeon, gan gynnwys datblygu polisïau a chyfarwyddyd arfer da ar gyfer clybiau ar lawr gwlad a sefydliadau chwaraeon lleol.

<http://tis-cic.com>